



Ysgol Rhydypennau
2022-2023

Ysgol Gymunedol Rhydypennau



Adroddiad Blynyddol i Rieni / *Annual Report to Parents*

Arwyddo / *Signed:* Cadeirydd y
Llywodraethwyr / *Chair of Governors*

Rhodus Morgan

Cyflwyniad:

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Ysgol Rhydypennau ar gyfer y flwyddyn 2022/23 ar ran y Corff Llywodraethol. Yn yr adroddiad cewch grynodedb o waith a chyflawniadau'r ysgol yn ystod y flwyddyn aeth heibio, yn ogystal â manylion rhaglenni'r ysgol a threfniadau cwricwlaidd.

Mae rôl Llywodraethwr Ysgol yn un freintiedig sy'n galluogi aelodau'r Corff i weld sut mae'r ysgol yn cael ei rhedeg o ddydd i ddydd. Rydw' i wedi nodi ar sawl achlysur y byddai'n fuddiol i bob rhiant gael y cyfle yma - mae'n agoriad llygaid gweld yr holl waith paratoi, trefnu a chydlynu trylwyr sy'n digwydd y tu ôl i ddrysau'r dosbarthiadau.

Mae pob blwyddyn ysgol yn unigryw, gyda heriau a newidiadau niferus yn wynebu ysgolion. Serch hynny, credaf fod y Corff Llywodraethol wedi helpu i lywio'r ysgol i'r cyfeiriad gorau er budd y disgyblion bob amser, drwy gefnogi a chynorthwyo'r Pennaeth a'i staff. Yr hyn sy'n magu hyder ynom ni fel llywodraethwyr yw ymroddiad angerddol yr athrawon, a chywirdeb arweiniad pendant Mr Leggett.

Rwy'n parhau i fwynhau fy nghyfnod fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol, ac yn cael boddhad mawr wrth weld yr ysgol yn datblygu. Oherwydd y cyfyngiadau eleni, mae'r Corff Llywodraethol wedi bod yn cydweithio'n rhithiol, gan fwyaf. Mae hyn wedi profi'n heriol ar adegau, ac yn sicr yn ddull gwbl wahanol o weithredu. Fodd bynnag, er gwaetha'r heriau, hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Llywodraethwyr am eu cyfraniad pwysig, ac am eu parodrwydd di-baid.

Hoffwn ddiolch hefyd i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am ei gwaith yn ystod y flwyddyn, gan fwrw ymlaen gyda gweithgareddau codi arian lle bo hynny wedi bod yn bosib. Oherwydd yr heriau anochel, mae'r arian yma'n holl bwysig, ac felly diolch hefyd i'r holl rieni a chymuned ehangach yr ysgol am gefnogi'r gwaith yma.

I orffen, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff a'r cynorthwywyr am eu gwaith clodwiw, ac am greu awyrgylch gartrefol a hapus i bob disgybl yn Ysgol Rhydypennau.

Yn gywir,

Rhodri Morgan (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Introduction:

It is my pleasure to present Ysgol Rhydypennau's annual report for the year 2022/23 on behalf of the Governing Body. In the report you will find a summary of the school's work and achievements over the past year, as well as details of the school's programmes and curricular arrangements.

The role of a School Governor is a privileged one that enables members of the Board to witness at first-hand how the school is run on a daily basis. I have noted on several occasions that it would be worthwhile for every parent to have this opportunity – it's an eye-opener to see all the preparatory work, organisation and coordination that takes place behind classroom doors.

Each school year is unique, with numerous challenges and changes facing schools. Nevertheless, I believe that the Governing Body has always helped in steering the school along the best course for its pupils, by supporting and assisting the Headteacher and his staff. We take great confidence from the passionate commitment shown by the teachers, and the veracity of the positive leadership shown by Mr Leggett.

I continue to enjoy my role as the Chair of Governors and It has been a pleasure seeing the school develop. The Governing Body have been collaborating virtually throughout this year, which has been quite challenging and very different to the way we've been used to working. However, I would like to thank all the members of the Governing Body for their important contribution and for their willing support at all times.

I'd also like to thank the school's PTA for their continued efforts in organising fundraisers, where this has been possible during the year. With the inevitable challenges ahead, this money is all-important and therefore, I would also like to thank all the parents, and the wider school community who have supported in any way.

I would like to end with a very special thank you to the teaching and support staff for all their continued hard work, and for creating a homely and happy atmosphere for each and every child in Ysgol Rhydypennau.

Yours sincerely,

Rhodri Morgan (Chair of Governors)

Newidiadau i'r Cyfarfod Blynyddol Rhieni/Llywodraethwyr

O ganlyniad i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ar 4 Mai 2013, nid yw'n ofynnol bellach i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol i rieni.

Y rhieni ydy'r prif ran ddeiliaid yn y gymuned ysgol ac mae ganddyn nhw ddiddordeb clir a chryf yn addysg eu plentyn. Mae'n bwysig felly bod y corff llywodraethu yn ymgysylltu'n weithredol gyda rheini ac yn parhau'n atebol trwy roi gwybodaeth a chyfleoedd iddyn nhw drafod a chael mewnbwn i'r ysgol.

Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 bellach yn galluogi rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol i ofyn am hyd at dri chyfarfod y flwyddyn gyda'r corff llywodraethu trwy gyfrwng deiseb. Darperir crynodeb byr isod.

Rhaid i'r corff llywodraethu gynnal cyfarfod o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn deiseb, cyn belled:

1. bod y ddeiseb yn cynnwys llofnodion yr isafswm angenrheidiol o rieni disgyblion cofrestredig

yn yr ysgol, sef yr isaf o'r canlynol:

(a) rheini 10% o ddisgyblion cofrestredig, neu

(b) rheini 30 o ddisgyblion cofrestredig¹.

2. rhaid i'r cyfarfod y mae rhieni wedi gofyn amdano drafod mater yn berthynol i'r ysgol.

1 Wedi'i gyfrifo trwy ddefnyddio nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ar y dyddiad y derbyniwyd y ddeiseb.

3. ni chaiff mwy na thri chyfarfod eu cynnal yn ystod y flwyddyn y derbyniwyd y ddeiseb gyntaf.

4. mae digon o ddyddiau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal y cyfarfod.

Mae'r cyfarfod yn agored i holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y pennaeth ac unrhyw berson arall a wahoddir gan y corff llywodraethu. Cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu holl rieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol mewn ysgrifen, beth ydy dyddiad y cyfarfod, a'r mater i'w drafod.

Mae rhagor o wybodaeth fanwl ar y gofyniad statudol i'r cyfarfodydd hyn, deisebau a'r broses i gynnal cyfarfodydd ar gael yng nghanllaw Llywodraeth Cymru ar

Cyfarfodydd Rhieni: canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni.

CHANGES TO THE ANNUAL PARENT/GOVERNOR MEETINGS

Section 94 School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) makes important changes to the previous legislative arrangements in respect of the Annual Parent/Governor Meetings. It provides new arrangements whereby parents can request a meeting with a governing body.

However, the parents will need to satisfy the four (4) statutory requirements when calling a meeting which are as follows:-

- (i) that the parents of 10% of registered pupils, or the parents of 30 registered pupils (whichever is the lower) must sign a petition requesting a meeting;*
- (ii) the meeting must be for the purpose of discussing matters relating to the school;*
- (iii) the maximum number of meetings that parents can request in any school year is three (3);*
- (iv) there must be sufficient school days left in the school year to allow a meeting to be held.*

Further:-

- (a) meetings must be held before the end of a 25 day period;*
- (b) the 25 day period commences the day after receipt of the petition but does not include any day which is not a school day;*
- (c) if another meeting is required to be held as a result of a different petition the 25 day period will not commence until the day after the other meeting has been held;*
- (d) there must be sufficient days left in the school year to allow a meeting to be held before the end of the 25 day period;*
- (e) meetings will be open to all parents of registered pupils at the school, Head and any other person invited by the governing body;*
- (f) notification of meetings to parents must include the date, time and venue of the meeting and the matter or matters to be discussed.*

Governing bodies will need to inform the parents annually of the right to petition a meeting using the powers provided by Section 94

ENW / NAME	STATWS / STATUS	TERM OF OFFICE
Mr Rhodri Morgan	Cymunedol (Cadeirydd)	
Cyng Paul Hinge	Awdurdod Lleol (Is Gadeirydd)	
Cyng Hugh Hughes	Awdurdod Lleol	
Mrs Erin Myrddin	Rhiant / Parent	
Mr Sion England	Rhiant / Parent	
Mr Richard Evans	Rhiant / Parent	
Mrs Sara Mitchell	Rhiant / Parent	
Cyng Sian Thomas-Jones	Cymunedol / Community	
Mr Matthew Clubb	Cymunedol / Community	
Mr Amlyn Ifans	Cymunedol / Community	
Miss Manon Wyn Jones	Staff Dysgu / Teaching Staff	
Mrs Dawn Gethin	Staff nad sy'n dysgu / Non-Teaching Staff	
Mr Melfyn Jones	Goruchwyliwr / Observer	
Mr Peter Leggett	Pennaeth / Headteacher	

Clerc i'r Llywodraethwyr / *Clark to the Governing Body*: Mrs Pauline Lucas (Swyddog Llywodraethwyr ALI) Gwasanaethau Dysgu, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE

Cadeirydd / *Chair*: Mr Rhodri Morgan: c/o Ysgol Gynradd Rhydypennau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AD

Etholwyd 1 rhiant llywodraethwr ac 1 llywodraethwr Awdurdod Lleol i'r Corff Llywodraethol yn ystod 2022-23 / 1 *Local Authority governor and 1 parent governor were elected to the governing body during 2022-23.*

Ni chyhoeddwyd Data Presenoldeb yn ystod 2022 / 2023 oherwydd newid i'r ddeddfwriaeth yn sgil Covid-19

Attendance data for 2022 / 2023 has not been published due to the change in legislation as a result of Covid-19.

Mae prospectws yr ysgol wedi'i ddiweddararu ac yn cynnwys rhai newidiadau i ddatganiadau cwricwlwm a newidiadau staffio. Gallwch dderbyn copi caled gan yr ysgol neu ei weld ar wefan yr ysgol ar www.ysgolrhydypennau.ceredigion.sch.uk Mae'r prospectws yn cynnwys gwybodaeth am gategoreiddio'r ysgol a'i ddefnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Ysgol Gymunedol Rhydypennau yn ysgol Gymraeg ei hiaith.

The school prospectus has been reviewed and updated, including some changes to curriculum statements and staffing changes. A full copy can be obtained from the school or on the school's website on www.ysgolrhydypennau.ceredigion.sch.uk The prospectus contains information on the categorisation of the school and it's use of the Welsh language. Ysgol Gynradd Rhydypennau is a Welsh medium school.

Data Cymharol / Comparative Data

Nid ydy Llywodareth Cymru bellach yn cyhoeddi data cymharol ysgolion yng Nghymru

The Welsh Government no longer provide comparative data to schools in Wales.

Canlyniadau diwedd y Cyfnod Sylfaen 2022

Deilliant	Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu	Datblygiad Mathemategol	Personol a Chymdeithasol
D 5+	73.6% (14/19)	78.9% (15/19)	89.47% (17/19)
D 6+	5.26% (1/19)	10.5% (2/19)	57.89% (11/19)
DCS	73.6% (14/19)		

Canlyniadau diwedd CA2 2022

Deilliant	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
L 4+	84.16% (16/19)	94.68% (18/19)	84.16% (16/19)	94.68% (18/19)
L 5+	21.04% (4/19)	31.56% (6/19)	42.08% (8/19)	42.08% (8/19)
CSI	84.16% (16/19)			

GWYBODAETH AM DARGEDAU O'R CYNLLUN GWELLA YSGOL / INFORMATION REGARDING TARGETS FOR SCHOOL IMPROVEMENT

Un o'r dogfennau allweddol yn ymwneud â gwelliant ysgol ydy'r Cynllun Gwella Ysgol (CGY). Mae'r CGY yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella yn ystod y flwyddyn, ac yn amlinellu cynlluniau gwariant yr ysgol. Am y flwyddyn 2022-2023, bu blaenoriaethau'r CGY yn canolbwyntio ar:

The most significant document regarding school improvement is the School Improvement Plan (SIP). The SIP is written in order to set measurable targets for improvement and to prioritise spending. For the year 2022 – 2023 the SIP focussed on the following issues:

- **Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion ar draws yr ysgol, gyda sylw penodol ar gystrawen**
- **Datblygu'r ddarpariaeth o fewn Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
- ***Parhau i ddylunio a theilwra Cwricwlwm newydd i'r ysgol; a datblygu gweithdrefnau asesu traws-ysgol effeithiol sy'n hybu cynnydd parhaus disgyblion***
- ***Ail-gydio mewn prosesau hunanwerthuso'r ysgol a datblygu ymhellach rolau arwain ar bob lefel, gan gynnwys rôl y Corff Llywodraethol***

DATGANIAD CYLLIDEBOL / FINANCIAL STATEMENT 2022 – 2023

Cyllideb Fformiwlâu am y Flwyddyn (A):	£693,598	
Y Gwariant Net a Ragwelir ar 31 Mawrth (B)	£747,530	
Y Gwahaniaeth am y Flwyddyn (C)	£53,932	(A-B=C)
Gweddillion ar Ddechrau'r Flwyddyn (Ch)	£180,024	
Gweddillion ar Ddiwedd y Flwyddyn (D)	£126,092	(C+Ch=D)
Gwariant ar Grant Amddifadedd Disgyblion: Mae'n rhaid i bob ysgol gyhoeddi ar-lein eu dosraniad Grant Amddifadedd Ysgolion ac amlinellu o'u cynlluniau i ddefnyddio'r cyllid i wella canlyniadau plant sydd yn dioddef amddifadedd.	£23,000	

DATGANIAD O FWRIAD / MISSION STATEMENT

Mae'r Datganiad o fwriad canlynol wedi'i fabwysiadu gan staff a llywodraethwyr yr ysgol ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

I DDATBLYGU POB UNIGOLYN I'W LAWN BOTENSIAL MEWN AMGYLCHEDD HAPUS, DIOGEL A CHYMREIG.

The following Mission Statement has been adopted by the staff and governors of the school and is reviewed periodically:

TO DEVELOP EACH INDIVIDUAL TO THEIR FULL POTENTIAL IN A HAPPY, SAFE AND WELSH ENVIRONMENT

Gallwch ddarganfod datganiad llawn yr ysgol trwy ddilyn y ddolen at brospectws yr ysgol ar / You can find our full mission statement by following the link to our school prospectus on: <http://rhydypennau.ceredigion.sch.uk/gwybodaeth--information.html>

POLISI DERBYN / ADMISSION POLICY

Dilynwch y ddolen isod i weld polisi derbyn yr Awdurdod Lleol / Please follow this link to see the Local Authority's Admissions Policy <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/schools-education/school-admissions/>

Cynllun Hygyrchedd - Ysgol Rhydypennau - Accessibility Plan

Mae'r Cynllun Hygyrchedd yn cynnwys mesurau rydym eisoes wedi gweithredu yn ogystal â chynlluniau sydd ar y gweyll er mwyn sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn hygyrch ac yn sefydliad nad sy'n gwahaniaethu yn erbyn anabledd / *The Accessibility Plan covers the measures we have already taken, and are still taking, to try to ensure that our school does not discriminate against disability.*

Gwelliannau hyd yn hyn / *Improvements made to date*

- Mynediad anabl o faes parcio'r Cyfnod Sylfaen i fynediad yr adeilad newydd / *Ramped access from the new end of the school car park to the Nursery Unit entrance.*
- Ramp anabl a rheilen llaw tu cefn ddosbarthiadau CA2 / *Disabled ramp with handrail installed at rear entrance to the KS2 Classrooms.*
- Toiled anabl wedi'i osod / *Disabled toilet installed.*
- Cyfleusterau cawod anabl wedi'i osod / *Shower facility installed.*
- Drysau argyfwng tân newydd wedi'i osod yn nosbarthiadau CA2 sy'n addas ar gyfer defnyddwyr anabl / *New emergency doors installed at emergency exits to KS2 classrooms to allow wheelchair access.*
- Rheilen llaw wedi'i osod yn nhoiledau Bl.3/4 / *Disabled handrail installed to Yr. 3/4 toilets.*

Gwelliannau sydd angen sylw / *Improvements still required –*

- *Gwella ansawdd ac addasrwydd toiledau Cyfnod Allweddol 2*
- *Addasrwydd celfi a chyfarpar ym mhob ardal / Suitability of furniture and equipment in all areas.*

- Stepiau newydd wedi ei osod rhwng iard Bl.1 a 2 a'r ystafell ddosbarth gyda ymyl melyn weladwy / *New steps installed from Year 1 and 2 yard to the classrooms, with visible yellow strips.*

Y CORFF LLYWODRAETHOL / THE GOVERNING BODY

Mae Corff Lawn y Llywodraethwyr yn cwrdd o leiaf unwaith pob tymor. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni ei dyletswyddau niferus trwy gydol y flwyddyn ysgol, mae is-bwyllgorau'r llywodraethwyr yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gweithio tuag at flaenoriaethau'r ysgol, ac er mwyn delio a materion sy'n codi. Mae'r is-bwyllgorau isod wedi'i sefydlu;

The full Board of Governors must meet together at least once every term. However, in order to carry out all of its many responsibilities, throughout the School year, various sub-committees meet as and when necessary, to deal with matters as they arise. The following sub-committees have been established;

IECHYD A DIOGELWCH / HEALTH AND SAFETY
CYLLID / FINANCE
ADEILADAU / BUILDINGS
CWRICWLWM / CURRICULUM
STAFFIO / STAFFING
DERBYNIADAU / ADMISSIONS
APÉL / APPEALS
MATERION DISGYBLU / DISCIPLINARY MATTERS
DIARDEL DISGYBLION/ PUPIL EXCLUSION
ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL / SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS
GWELLIANT YSGOL / SCHOOL DEVELOPMENT

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL / CYNHWYSIANT

Yn Ysgol Rhydypennau, rhoddir cyfle i bob disgybl gyrraedd ei llawn botensial ac i weithio ar lefel sy'n addas ar eu cyfer. Bydd pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol yn derbyn cynllun addysg unigol sy'n amlinellu eu cryfderau a'u gwendidau, a byddwn yn meithrin y rhain. Ein nod ydy sicrhau bod yna ddarpariaeth effeithlon yn ei lle er mwyn cynnal disgyblion yn effeithiol, ac rydyn yn sicrhau bod hawliau pob plentyn wedi'i gyflenwi trwy ddarparu cefnogaeth ychwanegol gan yr athro dosbarth, cynorthwywyr addysgu ac asiantaethau allanol. Rydym yn cyfathrebu'n agos gyda rhieni disgyblion sydd ag ADY, gan ddarparu gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau. Gwneir hyn trwy gyfarfodydd nosweithiau rhieni, trwy gynnal Adolygiad Blynyddol neu'r ddau. Adolygir y polisi ADY bob dwy flynedd, ac fe nodir unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth yma. Rydym yn archwilio cofrestr ADY yr ysgol yn nhymor yr hydref, ac mae hyn ynghyd a niferoedd disgyblion yn pennu darpariaeth gyllidol i'r flwyddyn sydd ar ddod.

Mae athrawon dosbarth yn gwahaniaethu gwaith disgyblion yn unol â gofynion y cwricwlwm. Mr Melfyn Jones ydy'r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (SENCo) a Mr Rhodri Morgan ydy'r Llywodraethwr a chyfrifoldeb ADY.

ADDITIONAL LEARNING NEEDS / INCLUSION

At Ysgol Rhydypennau, every child is given the opportunity to achieve to the best of his / her ability and to work to the level suited to them. A child experiencing additional learning needs (ALN) at any stage in their school life, will have both their strengths and weaknesses

recognised and nurtured. It is our aim that every child will work to fulfil his/her own potential and it is the right of every child experiencing ALN at any stage in their school career to be offered support either from the class teacher or teaching assistants or outside agencies. The parents of any child experiencing ALN or emotional or behavioural difficulties is informed of support offered and progress made, this may be at an Annual Review or Parents' Evening or both. The School's ALN Policy is currently reviewed as part of a two yearly cycle and any changes to legislation are noted and included. Currently the School's additional learning needs register is audited in the Autumn term and this along with pupil numbers and Local Authority formula dictates the financial provision for the forthcoming year.

Class teachers differentiate work accordingly within the curriculum for the children in their classes. The Special Educational Needs Co-ordinator's (SENCO) role is undertaken by Mr Melfyn Jones and Mr Rhodri Morgan is the Governor with special responsibility for ALN.

ADEILAD YR YSGOL / SCHOOL BUILDINGS

Yn ystod y flwyddyn 2022-23, cynhaliwyd y gwelliannau isod; / During the school year 2021 / 2022, the following improvement projects were undertaken;

- Gwaith adnewyddu to fflat a thyllau yn ffelt to'r ysgol / Repair work and reconditioning to the flat roof and repair to holes in felt on school roof.*
- Fascias a Soffits plastig wedi'i osod ar ffrynt yr ysgol / New plastic fascias and soffits installed at the front of the school*
- Goleuadau allanol wedi ei osod / External lighting fitted to rear of school grounds*
- Gwaith cynnal a chadw yn nhoiledau ar draws yr ysgol / Maintenance work carried out in toilet blocks across the school*
- Nenfwd newydd wedi'i osod yn neuadd yr ysgol / New ceiling installed in school hall*
- Llawr Newydd wedi'i osod yn nosbarthiadau Bl.1 a Bl.2 / New flooring installed in Yr. 1 and 2 classrooms during.*

GWEITHREDOEDD YN YMWNEUD A BWYTA AC YFED YN IACH / ACTION TAKEN TO PROMOTE HEALTHY EATING AND DRINKING

Mae Ysgol Rhydypennau yn rhan o gynllun 'Ysgolion Iach Ceredigion' ac yn manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod disgyblion yn dysgu pwysigrwydd y cynllun mewn modd hwylus ac ymarferol. O fewn y cynllun, mae ysgolion yn targedu mentrau gwahanol, yn eu tro, ac yn creu cynllun er mwyn datblygu'r rhain ar lefel ysgol gyfan; gyda maeth yn flaenoriaeth i'r asesiad. Rydym yn disgwyl archwiliad yn unol â'r cynllun yn ystod 2021/22.

Ysgol Rhydypennau is part of Ceredigion's 'Health Promoting Schools' initiative and makes every effort to ensure that pupils learn these key life skills in a fun and practical way. Within the Healthy School initiative themes are targeted within the school and an action plan created to develop aspects further on a whole school level: nutrition being one of the main aspects. We are due to be assessed to receive our next accreditation during 2021/22.

CYRHAEDDIAD TRWY CHWARAEON / SCHOOL SPORTING ACHIEVEMENT

Nofio / Swimming: *Bu tîm o'r ysgol yn cystadlu yng ngala nofio'r Urdd ym mis Tachwedd, a gala nofio ysgolion Cylch Aberystwyth ym mis Ionawr. Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu. / A team attended the Urdd gala in November and also the Aberystwyth Area Schools' gala in January. Congratulations to all the individuals and teams that competed, and well done to all who succeeded to reach the final rounds.*

Pêl droed/rwyd a rygbi / Soccer/Netball & Rugby: *Bu'r timau pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd yn cystadlu yn nhwrnamaint yr Urdd yn ystod tymor yr hydref. / The football, rugby and netball teams have been training, and competed in the Urdd tournaments during the autumn term.*

Hoci / Hockey: Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu yng ngemau hoci wythnosol yn ystod tymor yr hydref, a diolch i bob un am fynychu'r sesiynau paratoi wythnosol. **Diolch i'r holl staff a gwirfoddolwyr fu'n hyfforddi'r plant** / *Many pupils attended weekly training sessions during the autumn term and had a very successful season. Many thanks to **all the staff and volunteers** who generously gave up their own time to coach the children.*

Trawsgwlad / Cross Country: Da iawn i'r rhedwyr niferus bu'n cystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad ysgolion y cylch ym mis Hydref, ar gaeau'r clwb rygbi / Our cross-country runners continued to go from strength to strength. *A large number of children competed in the Aberystwyth Schools cross country event in Aberystwyth Rugby Club in October. Da iawn chi!*

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cynrychioli'r ysgol eleni. Mawr obeithiwn bydd holl gystadlaethau'r flwyddyn nesaf yn parhau / Many congratulations to all the pupils who represented the school this year. We sincerely hope that all competitions resume next year.

GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL / EXTRA CURRICULAR ACTIVITIES

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau allgyrsiol a chlybiau ar ôl ysgol, ac mae'r Corff Llywodraethol yn cydnabod yr amser personol y mae staff yn aberthu er budd y disgyblion. Heb ewyllys da ac ymdrech y staff, ni fyddai modd darparu'r ystod o brofiadau cyffrous y mae'r disgyblion yn derbyn.

A variety of after school clubs are run for the children and the Governing Body recognises the amount of personal time which staff are prepared to give up and their thanks goes to all the staff who are prepared to give up their time so generously. If it wasn't for their efforts in organising these extra-curricular clubs, then the school would certainly not be able to offer such a rich variety of activities to our pupils.

Mae'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd rheolaidd i ymweld a'r llefydd isod fel rhan o'u dysgu; / The children have regular outings to places of interest and during the year they visited the following locations:-

Amgueddfa Ceredigion Museum Tref Aberystwyth Town Theatre productions at the Arts Centre
 Cinema visit Aberystwyth Library Urdd Centre - Llangrannog (2 days) FEI Bio-diversity University
 Physics Department National Library Penglais School (Urdd Fun Day) Coedwig Gogerddan Woods

Mae'r ysgol wedi derbyn ymweliadau gan y canlynol / *The school has also received visits from :-*

Awduron a beirdd / Writers and poets Cwmni Theatr Arad Goch Theatre Group Haneswyr lleol / Local Historians
 Heddlu / Community Police Gweithdai thatr / A variety of Theatrical Workshops Brigad dân / Fire Brigade
 Gwylwyr y Glannau / Aberystwyth Coastguard

Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol wedi cefnogi'r achosion canlynol / *In addition to this, the school has helped the following causes :-*

Plant Mewn Angen / Children in Need Cartref Tregerddan / Senior Citizens at Tregerddan Care Home
 Masnach Deg / Fair Trade Mind Cymru

PWYLLGORAU YSGOL / SCHOOL COMMITTEES

- Mae Pwyllgorau'r ysgol, gan gynnwys y Cyngor Ysgol, Cyngor Eco, Criw Cymraeg, Dewiniaid Digidol a chriw Ysgolion Iach yn rhan annatod o drefnu digwyddiadau a hysbysi ddisgyblion am ddatblygiadau penodol. Mae'r pwyllgorau yma'n sicrhau bod llais y disgyblion yn flaenllaw wrth i'r ysgol wneud penderfyniadau pwysig / *The school's committees, which include the School Councillors, Eco Committee, Welsh Crew and Healthy School's crew are an integral part of organising school events and informing pupils of important whole school developments. These committees ensure that pupils' voices are heard and that pupils' views are valued in the strategic decisions of the school.*

DATGANIAD CWRICWLWM / CURRICULUM STATEMENT: [Cwricwlwm / Curriculum - Ysgol Gymunedol Rhydypennau](#)

CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL / COMMUNITY LINKS

Mae ein hysgol yn rhan bwysig o'r gymuned leol, yn enwedig wrth gydweithio gyda gwasanaethau ac asiantaethau lleol. Ma hyn yn cynnwys cymuned leol yr ysgol, y gymuned ehangach a chymunedau Cymraeg a byd-eang. Yn ogystal â hyn, mae'r ysgol wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth dysgu broffesiynol, gan gynnwys gweithdai cydweithio clwstwr gydag ysgolion eraill y cylch gyda ffocws ar ddatblygiadau cwricwlaidd.

Our school plays a very important part in the local and wider community, particularly with other local services. This includes the individual school community, the community within which the school is located, as well as other Welsh and global communities. In addition, the school has been a part of Professional Learning Communities (PLCs) where emphasis is put on working alongside other schools on a specific project, e.g. curriculum engagement workshops with area cluster schools.

Rydyn yn ceisio sicrhau bod cwricwlwm ac ethos yr ysgol yn hybu teimlad o berthyn ac yn dathlu amrywiaeth, gan ddangos bod cymunedau amrywiol yn medru cydweithio i greu cymunedau cydlynus a llwyddiannus. Rydwn yn gefnogol i fenter Masnach Deg ac yn cynnal gweithgareddau amrywiol yn ystod Pythefnos Masnach deg er mwyn hybu'r fenter a chodi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion dinasyddiaeth fyd-eang / *We ensure that the school's curriculum and ethos promotes a common sense of identity and supports diversity, showing pupils that different communities can work together to develop a coherent and successful society, for example, developing international awareness through Fair Trade Fortnight.*

DARPARIAETH CYFLEUSERAU TOILEDAU A THREFNIADAU GLANHAU / THE PROVISION OF TOILET FACILITIES AND THE ARRANGEMENTS IN PLACE FOR CLEANING

Mae'r toiledau wedi'i lanhau'n ddyddiol i safon uchel, trwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda Cyngor Sir. / *The toilets are cleaned daily to a high standard, through a SLA with Ceredigion LA.*

DYDDIADAU TYMHORAU YSGOL / SCHOOL TERM DATES

Dilynwch y ddolen isod i weld rhestr o ddyddiadau tymhorau ysgol / *Please follow the link below to see a full list of school term dates.* <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/schools-education/school-information/school-term-dates/>

Gyda diolch i chi gyd am eich cefnogaeth i'r ysgol / *With grateful thanks to you all for your support to the school.*



Mr Rh. Morgan (Cadeirydd y Llywodraethwyr / *Chair of Governors*)